

Cofio Stormydd, Meithrin Gwydnwch:

Gwersi o Brofiad Borth o Newid Arfordirol



Ffigur 1. Traeth Borth (chwith) a pharatoi ar gyfer digwyddiad adrodd straeon cymunedol am y môr (dde).

Gwybodaeth o ymchwil cymunedol yng Ngorllewin Cymru am sut gall gwybodaeth, cof a chydweithredu lleol gryfhau addasu arfordirol a rheoli llifogydd mewn ymateb i newid hinsawdd.

Mae ymchwil ym mhentref arfordirol Borth yng Ngheredigion, Gorllewin Cymru, a gynhaliwyd gan Alex Arnall a Kim Williams o Brifysgol Reading, yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhoi gwybodaeth leol wrth galon polisi rheoli arfordirol ac amddiffyn rhag llifogydd. Gan ddefnyddio cyfweiliadau a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol, mae'r ymchwil yn dangos sut mae atgofion, profiad ac arferion bob dydd yn dylanwadu ar sut mae pobl yn byw gyda newid arfordirol. Mae'r canfyddiadau'n cynnig gwersi ehangach ar gyfer polisi addasu a chynllunio yng Nghymru a thu hwnt.

Mae Newid Arfordirol yn Ddiwylliannol yn ogystal â Ffisegol

Mae ymchwil yn Borth yn dangos bod addasu i newid arfordirol yn ymestyn y tu hwnt i amddiffynfeydd peirianegol a ffisegol. Mae hanes maith y gymuned o fyw gyda'r môr yn adlewyrchu cysylltiad diwylliannol dwfn, lle mae hunaniaeth, perthyn a chof yn ganolog i sut mae pobl yn ymateb i newid amgylcheddol. Dylai dulliau polisi gydnabod treftadaeth ddiwylliannol a gosod hunaniaeth fel elfennau pwysig o addasu, gan sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi'n gwarchod nid yn unig eiddo a seilwaith, ond parhad cymunedol hefyd.

Mae Gwybodaeth Leol yn Sylfaen ar gyfer Gwydnwch

Mae gan bobl yn Borth wybodaeth helaeth am stormydd y gorffennol, arfordiroedd sy'n newid ac ymatebion lleol effeithiol. Mae'r profiad byw hwn yn adnodd hanfodol ar gyfer addasu a pharatoi, gan ategu data gwyddonol a thechnegol. Gall integreiddio cof cymunedol i brosesau cynllunio lleol gryfhau gwneud penderfyniadau ac ymddiriedaeth. Mae adrodd straeon, hanes llafar ac ymgysylltu creadigol yn cynnig ffyrdd ymarferol o ddefnyddio'r arbenigedd hwn, gan gefnogi gwydnwch wrth sicrhau bod cyfrifoldeb am addasu yn cael ei rannu, nid ei symud ar gymunedau yn unig.

Mae Cyfathrebu Cyson yn Meithrin Ymddiriedaeth a Dealltwriaeth Gyffredin

Mae sgwrs reolaidd rhwng cymunedau ac asiantaethau yn hanfodol ar gyfer addasu effeithiol. Yn Borth, mae'r perthnasoedd rhwng y Wardeiniaid Brys, y Cyngor Cymuned, Cyngor Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn darparu sylfaen ar gyfer trosi profiadau lleol yn wybodaeth ymarferol ar gyfer cynllunio ac ymateb. Mae sefydlu sianelau cyfathrebu cynaliadwy – yn hytrach na dibynnu ar ymgynghori ysbeidiol – yn helpu i reoli disgwyliadau ar bob ochr ac yn cryfhau ymddiriedaeth.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl yn Borth a rannodd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o newid arfordirol gyda ni, ac i'r rheolwyr arfordirol a'r llunwyr polisïau a gyfrannodd eu safbwyntiau. Yn Reading, hoffem ddiolch i Stéphanie Mitchell, Sascha Valme a Domonique Davies am eu cefnogaeth. Ariannwyd yr ymchwil gan ddau brosiect Cyfrif Cyflymydd Effaith (IAA) AHRC sy'n cael eu gweinyddu gan Brifysgol Reading.